**Atodiad C - Enghraifft o Lythyr Rhybudd Ffurfiol yn dilyn camddefnydd a amheuir**

**Cyfeiriad yr Awdurdod Lleol**

**ENW a CHYFEIRIAD Y CYFLAWNWR A AMHEUIR**

Ffôn:

Ffacs:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

**Annwyl ENW**

**Bathodyn Glas - RHIF CYFRESOL**

Yr wyf yn ysgrifennu atoch ynghylch y camddefnydd o'r bathodyn anabledd uchod, yn **(LLEOLIAD)**. Ar **(DYDDIAD)** ymddangosai i swyddog o **(YR AWDURDOD LLEOL A RODDODD Y BATHODYN)** nad oedd y bathodyn anabledd uchod yn cael ei ddefnyddio yn unol â Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) 2000. Yr oedd yn cael ei ddefnyddio gennych chi, heb i ddeiliad y bathodyn fod yn bresennol yn y cerbyd **(GWNEUTHURIAD MODEL RHIF COFRESTRU).**

Honnir felly eich bod, ar **(DYDDIAD)**, wedi parcio cerbyd modur **(GWNEUTHURIAD)** a chanddo'r rhif cofrestru **(YYYYYYYY)** yn **(LLEOLIAD)**; a'ch bod, heb i ddeiliad y bathodyn fod yn bresennol, wedi arddangos Bathodyn Glas **(RHIF CYFRESOL)** yn y cerbyd hwn. Roeddech felly'n defnyddio'r cerbyd uchod mewn amgylchiadau lle byddai consesiwn Bathodyn Glas wedi bod ar gael pe bai'r cerbyd hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan y sawl y rhoddwyd y bathodyn iddo, yn groes i ddarpariaethau adran 117 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a/neu adran 21(4B) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970.

Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r mater hwn yn unol â'n polisi Gorfodi er mwyn penderfynu pa gamau pellach y dylid eu cymryd. Y ddirwy fwyaf os ceir rhywun yn euog o'r drosedd hon yw **£1000.**

Ar yr achlysur hwn, penderfynwyd ymdrin â'r drosedd honedig drwy roi rhybudd ffurfiol. Ni fydd **(YR AWDURDOD LLEOL A RODDODD Y BATHODYN)** yn cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'r manylion wedi'u cofnodi a byddant yn cael eu cymryd i ystyriaeth os ceir cwynion o natur debyg yn y dyfodol, neu os bydd archwiliadau yn y dyfodol yn datgelu troseddau pellach, fel y nodir uchod.

Os oes angen cyngor neu gymorth pellach arnoch ynghylch bathodynnau anabledd neu Gynllun y Bathodyn Glas, cysylltwch â **(TÎM YR AWDURDOD LLEOL A RODDODD Y BATHODYN)** ar **(RHIF).**

Yn gywir

ENW

Swyddog Ymchwilio Parcio

**YR AWDURDOD LLEOL A RODDODD Y BATHODYN**